# CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
# PWYLLGOR CYLLID
# CYNHALIWYD AR 8 CHWEFROR 2024 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gyswllt fideo yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

*Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Luned Voyle.*

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Tom Defis, Gareth John (fideo), Andy King (fideo), Emlyn Schiavone, Wyn Thomas a Luned Voyle.

Emma Smith – Clerc y Dref
Catrin Llwyd - Cyfieithydd

**335. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ioan Matthews a Jeff Thomas.

**336. Datgan Buddiannau**

Cyng. Andy King am eitem 337 a’r taliad i Ambiwlans Sant Ioan.

**337. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn ar gyfer Talu Atodlenni Cyfrifon Chwefror 2024.**

Craffodd yr Aelodau ar y taliadau ac roeddent yn fodlon gyda'r amserlen a **PHENDERFYNWYD** y dylai'r taliadau gwerth cyfanswm o £152,178.12 gael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc.

**Adroddiad Clerc y Dref**

**338. Adroddiad Ariannol**

Roedd balansau Banc y Cyngor ar 31 Ionawr 2024 fel a ganlyn:

| | **£** |
|---|---|
| HSBC Cyfrif Cyfredol | 87,547.58 |
| HSBC Cyfrif Wrth Gefn | 654,332.31 |
| **Cyfanswm yn y Banc** | **741,879.89** |

**Balansau mewn Cyfrifon Eraill ar 31 Ionawr 2024:**

Lwfans Maer - £3,223.70
Ras Hwyl y Maer - £5,072.13

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill i 31 Ionawr 2024 oedd £755,772.49.

- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod oedd £164,785.35. Y gwariant net cyffredinol felly yw £590,987.14.
- Y Gyllideb Net/gofyniad Praesept ar gyfer 2023/24 yw £793,011 sydd i gyd wedi dod i law. Bydd Aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor o fewn y gyllideb ar 31 Ionawr 2024.

**NODWYD** yr adroddiad ariannol.

**339. Rhestr o Ddyledwyr**

Nododd y Clerc ers i'r rhestr gael ei dosbarthu, bod taliad dyledus o £330.00 wedi'i dderbyn gan un o'r dyledwyr, gan ostwng y swm sy'n weddill i £120.00. **CYMERADWYWYD** y rhestr gan y Pwyllgor.

**340. Adolygiad blynyddol o strategaeth fuddsoddi a threfniadau bancio**

Adolygodd y Pwyllgor strategaeth fuddsoddi'r Cyngor a dywedodd y Clerc gan nad yw'r sefyllfa ariannol mor ffafriol erbyn hyn, ynghyd â'r ffaith bod y cyfrif cronfeydd wrth gefn yn denu gwell llog yn ddiweddar, awgrymir nad oes angen unrhyw newid ar hyn o bryd.

**CYTUNWYD** gan yr Aelodau y dylid cadw'r trefniadau presennol

**341. Polisi asesu risg a rheoli risg 2024/2025**

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r asesiad risg drafft a rhoddodd y Clerc y newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ar y diwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol. Heb unrhyw newidiadau pellach, **ARGYMHELLWYD** yr asesiad risg gyda'r newidiadau a awgrymwyd o Bwyllgor Dibenion Cyffredinol i gyngor.

**342. Menter Gorllewin Sir Gâr – Gŵyl Canol Dre 2024.**

Ar ôl ystyried yr opsiynau sydd ar gael a chyfyngiadau cyllidebol y cyngor, cynigiwyd gan y Cyng. Andy King, eiliwyd gan y Cyng. Tom Defis y byddai cyfraniad o £1000 yn cael ei gynnig tuag at y llwyfan berfformio. Gyda'r holl aelodau o blaid **CYMERADWYWYD** y cyfraniad gan y pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7:54yh**